**EITEM AGENDA RHIF.**

| YNYS MÔN CYNGOR SIR | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyfarfod Bwrdd y Comisiynwyr** |
| **Dyddiad** | **16 Ionawr, 2012** |
| **Pwnc** | **Cynllun Busnes Corfforaethol** |
| **Deilydd Portffolio (au)** | **Byron Davies** |
| **Swyddog Arweiniol (ion)** | **Richard Parry Jones** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Huw Jones 2108**<br>**Gethin Morgan 2111** |
| **Natur a rheswm ar gyfer adrodd**<br><br>**Mae'r papur hwn yn cyflwyno 'drafft' Cynllun Busnes Corfforaethol 3 blynedd Cyngor Sir Ynys Mon ar gyfer ymgynghori i'w ystyried gan y Comisiynwyr.** | |

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion**

Mae sicrhau ein bod fel Cyngor Sir gyda Cynllun Busnes Corfforaethol cadarn ac ystyrlon yn hollbwysig i'r Cyngor ar ei daith er Gwella Llywodraethu Corfforaethol, ac yn cael ei gydnabod fel y cyfryw gan amcanion Llywodraethu Corfforaethol y mae'r Cyngor yn eu gweithredu ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun ei hun wedi cael ei ddatblygu a'i siapio gan: -

**Barn y bobl leol** - Rydym yn symud tuag at fod yn Gyngor sydd yn llawer gwell am wrando a byddwn yn gwella ein harferion ymgynghori ac ymgysylltu â'n dinasyddion a chymunedau. Bu proses helaeth o ymgysylltu gyda'n dinasyddion mis Hydref diwethaf i nodi blaenoriaethau a chanlyniadau y dylem fod yn gweithio tuag atynt.

**Barn ein partneriaid** – Nid oes bron dim un gwasanaeth a ddarparwn yn cael ei ddarparu heb mewnbwn a chyfraniad ein partneriaid lleol. Wrth ddatblygu'r ddogfen hon rydym wedi ystyried yr agenda Ynys eang diwygiedig o'r enw 'Ein Hynys, Ein Dyfodol' sy'n cael eu datblygu gyda phartneriaid fel sydd yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn wneud gwahaniaeth drwy gymryd yr awenau.

**Pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn perfformio ar hyn o bryd** - Rydym yn

dechrau monitro ein perfformiad yn agos iawn drwy'r fframwaith gysylltiedig er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn ac yn gwneud gwelliannau parhaus. Os nad ydym yn perfformio i lefel ddigon da, mae yna gamau sydd i'w cymryd i unioni pethau. Mae ein blaenoriaethau, ac yn arbennig ein blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn adlewyrchu nifer o feysydd lle mae gwelliannau pellach ei angen.

**Blaenoriaethau Gwleidyddol** – Mae Cynghorwyr Etholedig a'r Aelod Cynulliad, fel cynrychiolwyr eu cymunedau lleol, drwy lwybrau gwahanol amrywiol megis Pwyllgorau Craffu a Byrddau Partneriaeth, hefyd wedi tynnu sylw at nifer o faterion, ac mae'r rhain hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen hon.

**Blaenoriaethau Cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru** - Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn y ddogfen Rhaglen ar gyfer Llywodraeth. Mae'r amcanion a nodwyd yno yn cael eu hadlewyrchu yn ein blaenoriaethau gyda phwyslais penodol ar gefnogi pobl sydd yn fwyaf agored i niwed, addysg, twf a swyddi cynaliadwy ynghyd â'r amgylchedd a chynaliadwyedd.

## B - Ystyriaethau

Mae sylw Bwrdd y Comisiynwyr yn cael ei dynnu at y meysydd canlynol sy'n cael eu cyflwyno o fewn y cynllun, yn barod ar gyfer ymgynghori cyhoeddus yn ystod yr wythnosau nesaf -

**Gweledigaeth** - I fod yn Gyngor Sir sydd yn cael ei redeg yn dda ac yn darparu gwasanaeth cyson i'n dinasyddion tra'n darparu gwerth am arian

**Nod** - Hybu a gwarchod buddiannau'r ynys, ei dinasyddion a'i chymunedau

Canlyniadau

1. Mae gan Ynys Môn economi gwledig lewyrchus a ffyniannus
2. Mae pobl Ynys Môn yn cyflawni eu llawn potensial
3. Mae pobl Ynys Môn yn iach a diogel
4. Mae pobl Ynys Môn yn mwynhau, gwarchod a gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
5. Mae pobl Ynys Môn yn falch o'u Cyngor

**Blaenoriaethau Gwella** -

| |
|---|
| 1. Gwasanaeth Plant<br>2. Gwelliannau Llywodraethu Corfforaethol<br>3. Gwireddu ein Cytundebau Canlyniadau<br>4. Adfywio Cymunedol<br><br>Bydd gwireddu’r deilliannau strategol yn gyfrifoldeb y Grwp Arweinyddiaeth Strategol a bydd y Cyngor yn dal y grwp i gyfrif drwy ffwythiannau’r Pwyllgor Sgrwtini a’r Pwyllgor Gwaith. |
| |

| **C - Goblygiadau ac Effeithiau** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | |
| **{0}2.{/0}{1}{/1}** | **Swyddog Monitro Cyfreithiol /** | |
| **3** | **Adnoddau Dynol** | |
| **4.** | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau ar wahân | |
| **5** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **{0}6.{/0}{1}{/1}** | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau ar wahân | |
| **7.** | **Gwrth-dlodi a Gofal Cymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau ar wahân | |
| **{0}8.{/0}{1}{/1}** | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau ar wahân | |

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau<br>ar wahân | |
| **10.** | **Economaidd** | |
| **11.** | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau<br>ar wahân | |
| **12.** | **Troseddau ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau - dogfennau<br>ar wahân | |
| **13.** | **Cytundebau Canlyniadau** | |

| **CH - Crynodeb** |
|---|
| Mae sicrhau ein bod fel Cyngor Sir gyda Cynllun Busnes Corfforaethol cadarn ac ystyrlon yn hollbwysig i'r Cyngor ar ei daith Gwella Llywodraethu Corfforaethol.<br><br>Mae'r cynllun atodedig wedi ei ddrafftio yn dilyn ymarfer ymgynghori / ymgysylltu gyda ein dinasyddion / cymunedau / Aelodau. Mae hefyd yn ystyried blaenoriaethau'r agenda genedlaethol ac yn amlinellu sut yr ydym fel Cyngor yn gweithio tuag at wireddu y nodau hynny.<br><br>Mae'n cynnwys gweledigaeth y Cyngor a’r Nod a’r deilliannau y byddwn ni fel sefydliad yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein dinasyddion.<br><br>Byddwn yn ymgynghori  ar y cynllun arfaethedig a bydd yn cael ei ddychwelyd i'r Comisiynwyr a'r Cyngor gyda dangosyddion sydd wedi eu mireinio ymhellach fydd yn dangos sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth i'n hardal leol. |
| **D – Argymhellion** |
| |

| |
|---|
| Argymhellir - <br><br> 1. Cymeradwyo'r Cynllun Busnes Corfforaethol drafft a chaniatáu i Swyddogion ymgynghori'n gyhoeddus ar y ddogfen 'ddrafft' cyn dychwelyd gyda fersiwn diwygiedig llawn yn barod ar gyfer cyfarfod Bwrdd y Comisiynwyr ar yr 20 fed Chwefror, fydd wedyn yn cael ei ddilyn gan gynnig ffurfiol a'i llofnodi ffwrdd gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar Fawrth 6 ed, 2012 |

**Enw'r awdur adroddiad -** **Gethin Morgan**
**Teitl y Swydd -** **Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen**
**Dyddiad -** **10.1.12**

| **Atodiadau** |
|---|
| Drafft - Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15 |

| **Papurau cefndir** |
|---|
| Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol - ystyriwyd 14.11.11 |

**CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL – 2012/15**

**DRAFFT YMGYNGHOROL**

**IONAWR 6ed, 2012**

**MYNEGAI** **Tud**


| | |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad – Pwrpas y ddogfen** | **2** |
| **2. Cyd-destun** | **3** |
| **3. Ein gweledigaeth / Datblygu ein Cynllun** | **8** |
| **4. Themau sy'n Trawstorri** | **12** |
| **5. Ein Hamcan & Blaenoriaethau Strategol** | **14** |
| **a. Mae gan bobl Ynys Mon economi wledig, ffynnianus a llewyrchus** | **14** |
| **b. Pobl Ynys Mon yn cyrraedd eu potensial** | **17** |
| **c. Mae pobl Ynys Mon yn iach ac yn ddiogel** | **21** |
| **d. Mae pobl Ynys Mon yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol** | **26** |
| **e. Bydd pobl Ynys Mon yn falch o'i Cyngor** | **29** |
| **6. Atodiad 1** | **32** |


DRAFT

**CYFLWYNIAD - Beth yw pwrpas y ddogfen hon**

Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau'r Cygnor am y cyfnod 2012/15. Mae'n rhoi siâp i'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor a

- Mae'n dangos sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth go iawn i'n hardal
- Mae'n gosod y fframwaith yr ydym yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu ein gwasanaethau
- Mae'n dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn siapio ein cyllideb, a
- Mae'n cynorthwyo i gadw llygad ar gynnydd ac asesu yr hyn yr ydym yn ei gyflawni.

Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r ddogfen hon yw ein huchelgais i weithio gyda'n dinasyddion a'n cymunedau i sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb. Mae'r uchelgais hon wedi ei hadlewyrchu yn ein gwerthoedd sy'n cael eu datblygu a'i gwreiddio yn ein strwythurau trefniadol drwy'n prosiect newid rheolaethol Ethos Mon.

Nodir gwerthoedd y Cyngor fel a ganlyn –

| | |
|---|---|
| BALCH | - rydym yn falch o'r gwasanaeth a ddarperir / yn falch o'n gilydd ac yn wydn |
| YMRODDGAR | - rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau a'r cwsmer gydag agwedd bositif tuag at gymryd cyfrifoldeb a rheoli risg |
| GALLUOGI | - rydym yn ymrwymiedig i safonau uchel o ymddygiad sydd yn cynnwys ymddiriedaeth, gonestrwydd a bod yn agored i'n grymuso |
| CYDWEITHREDOL | - rydym yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl mewn modd cydweithredol gyda phwyslais penodol ar weithio fel Tim |
| MENTRUS | - Rydym yn ceisio edrych y tu hwnt i'r sefydliad am atebion drwy annog parodrwydd i gymryd y cam cyntaf, bod yn hyblyg gydag agwedd mentrus |

DRAFT

Rhennir y ddogfen hon yn ddwy ran:

1. **Cyd-destun:** sy'n dangos sut y mae'r Awdurdod yn gweithio, yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni a'r heriau, a sut ydym wedi pennu ein blaenoriaethau.
2. **Canlyniadau Strategol**: Amlinelliad o'r hyn y mae angen i ni fel Awdurdod ganolbwyntio arno yn y tair blynedd nesaf.

Bwriedir i'r fersiwn hon o'r Cynllun Busnes Corfforaethol gael ei defnyddio'n bennaf gan ein Gwasanaethau, ein partneriaid ac aelodau etholedig ac mae crynodeb byrrach o'r ddogfen hefyd ar gael yn www.ynysmon.gov.uk

**CYD-DESTUN**

- **Amdanom ni**:-

Mae Ynys Môn yn ynys o ychydig dros 700 o gilometrau sgwâr gyda thirwedd wledig yn bennaf. Mae ei 200km o arfordir yn cynnwys amrywiaeth eang o draethau tywodlyd a childraethau creigiog sy'n denu nifer fawr o dwristiaid ym misoedd yr haf. Mae'r A55 yn un o ddwy o groesfannau sy'n cysylltu ein hynys gyda thir mawr Cymru, gan sicrhau y gall teithwyr a nwyddau deithio'n gyflym i borthladd Caergybi ac ohono.

Yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf (2009), mae oddeutu 69,000 o bobl yn byw yn Ynys Môn. Mae pump o brif drefi, a'r mwyaf ohonynt o bell yw Caergybi, gyda phoblogaeth oddeutu 13,500. Mae poblogaeth Ynys Môn yn fwy gwasgaredig na phoblogaeth y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, ond mae modd cyrraedd ei holl drefi a phentrefi yn rhwydd cyn pen hanner awr neu lai o brif swyddfeydd gweinyddol y Cyngor yn Llangefni.


Ar hyn o bryd, mae'r Ynys wedi ei rhannu'n 40 o wardiau ac fe'i cynrychiolir gan 40 o aelodau etholedig. Ar hyn o bryd mae -

- 14 o Gynghorwyr Annibynnol Gwreiddiol
- 8 o Gynghorwyr Plaid Cymru
- 5 o Gynghorwyr Plaid Lafur
- 5 o Gynghorwyr Llais i Fôn
- 8 o Gynghorwyr sydd heb gyswllt â phlaid wleidyddol.

Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Owen. Mae cyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith yn disgyn ar 5 o Gomisiynwyr a bennwyd gan Lywodraeth Cymru

**Un Cyngor, Un Cyfeiriad:-**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sefydliad cymhleth gydag amrediad helaeth iawn o wasanaethau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â phob agwedd ar ein bywydau. I weithio'n effeithiol, mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r fframwaith Cynllunio Corfforaethol isod sy'n sicrhau ein bod oll yn cyd-dynnu i'r un cyfeiriad.




DRAFT

Y **Cynllun / Strategaeth Gymunedol** sydd ar ben y fframwaith a hwn sydd yn pennu'r blaenoriaethau sydd gennym yn gyffredin gyda sefydliadau allweddol eraill sy'n gweithio yn ein cymunedau ac a reolir trwy'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol (BGLl). Yr ail lefel, sef y **Cynllun Busnes Corfforaethol**, yw'r pwysicaf i ni oherwydd ein bod yn nodi blaenoriaethau strategol ein sefydliad y byddwn yn ceisio cwrdd â nhw yn ystod oes y cynllun hwn. Y lefel nesaf i lawr yw'r **Strategaeth Ariannol Tymor Canol** sy'n llifo o'n blaenoriaethau strategol ac sy'n gyrru ein gwaith cynllunio ariannol, gan gynnwys gosod cyllideb bob blwyddyn.

Ar y **lefel gwasanaeth / cyfadran**, mae yna nifer o gynlluniau sy'n cyfieithu ein blaenoriaethau allweddol i weithrediad. Gosodir **amcanion unigol ar gyfer gweithwyr** trwy adolygiadau datblygu perfformiad ac maent wedi eu cysylltu gyda'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Busnes Corfforaethol.

Elfen sy'n rhedeg trwy'r fframwaith hwn yw'r angen parhaus i gymryd sylwadau dinasyddion a chymunedau lleol i ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynlluniau uchod. Mae hon yn elfen barhaus o'r fframwaith a fydd yn cael ei datblygu fel y bydd amser a thechnoleg yn caniatáu.

Mae'r ymagwedd hon yn sicrhau cyswllt cryf o'n hamcanion strategol corfforaethol ehangach yr holl ffordd i lawr at weithwyr unigol fel bod pawb yn glir ynghylch sut y mae ei gwaith yn ffitio i mewn i'r agenda ehangach.

- **Gweithio gyda'n gilydd i wneud pethau'n lleol:-**

Nid yw gweithio ar ein pennau ein hunain yn y sector cyhoeddus yn opsiwn bellach os ydym yn driw i'n gwerthoedd ac os ydym am ddarparu'r atebion gorau posib i anghenion ein dinasyddion a'n cymunedau. O'r herwydd, rhaid i ni edrych ar sefydlu gweithdrefnau arloesol a chreadigol i'n cynorthwyo i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid a'n cymunedau er budd pawb. Mae'r rhaglen gydweithredol / partneriaeth yn flaenoriaeth fawr hefyd i Lywodraeth Cymru a byddwn yn newid dipyn ar y drefn gyfredol trwy sefydlu gweithdrefn i yrru'r rhaglen yn ei blaen gyda dealltwriaeth glir mai cwrdd ag anghenion ein dinasyddion yw'r prif ffocws. Ar hyn o bryd,

- Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn yw'r brif bartneriaeth sy'n dod â'r Cyngor a sefydliadau allweddol eraill ynghyd, sef cyrff fel yr Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Gwasanaeth Tân a chynrychiolwyr o'r sectorau preifat a gwirfoddol. Ei brif rôl yw cytuno ar flaenoriaethau ar y cyd a chydgysylltu camau gweithredu i wella'r Ynys tra'n nodi bylchau yn y ddarpariaeth a sicrhau gwasanaethau cynhwysfawr sy'n cael eu darparu mewn modd effeithiol.

- Mae gennym drefniadau partneriaeth strategol eraill hefyd sy'n rhoi sylw i wahanol raglenni, fel y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Cynllun Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, y Cynllun Diogelwch Cymunedol a'r Cynllun Cynllunio Cymunedol. Yn ystod oes y ddogfen hon bydd y rhaglenni partneriaeth hyn yn cael eu rhesymoli i ddarparu un bartneriaeth integredig a fydd yn darparu gwasanaeth effeithiol sy'n darparu gwerth am arian i ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn.

- Mae gennym hefyd nifer o drefniadau ar lefel sydd hyd yn oed yn fwy lleol fel bod modd i ni wrando ar ein cymunedau a grwpiau gyda diddordeb penodol ac ymateb iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, Partneriaeth Adfywio Economaidd Ynys Môn, Fforwm Pobl Hyn, Partneriaeth Twristiaeth Ynys Môn a sawl mecanwaith arall.

- **Yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni a'r heriau:-**

I nodi ein blaenoriaethau i'r dyfodol, mae'n hollbwysig ein bod yn pwyso a mesur yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni hyd yma yn ogystal â'r heriau y mae'n rhaid i ni roi sylw iddynt. Ers Ebrill 2010, rydym wedi darparu nifer o amcanion gwella parhaus –

- Sefydlu, adnoddu a lansio Rhaglen Ynys Ynni gyda'r Dirprwy Brif Weinidog.

- Sicrhau cefnogaeth Llywodraeth Cymru drwy gadarnhad y bydd Parth Menter Ynni yn cael ei sefydlu ym Mon.

- Ffurfioli trefniadau cydweithio a llywodraethu gyda chydranddeiliaid allweddol i sicrhau'r manteision mwyaf posib yn sgil adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa.

- Gwella isadeiledd 5 lleoliad arfordirol fel rhan o brosiect Cydgyfeiriant a gyllidwyd gan yr Undeb Ewropeaidd - 'Datblygu Amgylchedd Arfordirol'.

- Rydym wedi gweithio mewn Partneriaeth gyda'r Heddlu i gynorthwyo i ostwng lefelau trosedd sy'n gysylltiedig ag alcohol gan 25% ac wedi sicrhau gostyngiad o 41% ers Ebrill 2010 yn nifer y troseddau a gyflawnwyd gan droseddwyr cyson.

- Wedi sicrhau oddeutu £3.1 miliwn i weithredu mentrau dan y Cynllun Datblygu Gwledig.

DRAFT

- Cynnydd o 6% yng nghynnyrch twristiaeth yr Ynys.

- 31% o dai’r Cyngor yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru.

- Wedi croesawu 11 o longau môr-deithio i Borthladd Caergybi (a gynhyrchodd dros £500k i’r economi leol)

- Wedi cynorthwyo 52 o fusnesau trwy Gronfa Fuddsoddi Leol Cynllun Cydgyfeiriant y Gymuned Ewropeaidd, gyda grant o £151,000 yn arwain at greu / diogelu 24 o swyddi.

- Wedi cydweithio i sicrhau fod 228 o bobl leol wedi defnyddio’r ‘Gronfa Swyddi’r Dyfodol’ i gael profiad o gyflogaeth.

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o’r heriau eraill yr ydym yn ei hwynebu. Ar hyn o bryd, rydym yn cael ein llywodraethu gan Gomisiynwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac maent wedi nodi agweddau penodol y mae angen eu gwella os ydym am ddatblygu Cyngor modern ac effeithlon. Ni fedrwn dderbyn na ddylwn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau ac mae’r angen i newid yn glir.

Byddwn yn chwilio am gyfleon i wneud ein hunain yn fwy effeithlon ac effeithiol yn llygaid ein dinasyddion trwy nodi lle mae gwastraff, biwrocratiaeth a dyblygu’n digwydd. Byddwn yn mabwysiadu egwyddorion Cytundeb Llywodraeth Cymru sy’n dwyn sylw at yr angen i gael disgwyliadau clir a cherrig milltir perthnasol a fydd, yn y pen draw, yn gwella perfformiad, effeithlonrwydd a chanlyniadau ar gyfer pobl Ynys Môn.

Yn ail, bydd angen i ni ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o’r radd flaenaf o gwmpas anghenion ein dinasyddion. Mae hynny’n golygu gweithio’n llawer agosach gyda’n partneriaid a chymunedau i ddatrys problemau lleol a moderneiddio’n gwasanaethau. Rydym yn sylweddoli na fydd ymagwedd unffurf yn gweithio, felly rydym yn datblygu strategaeth am gysylltiad cymunedol sy’n canolbwyntio ar ein cwsmeriaid i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Rydym yn cydnabod yr angen i wella’r gwasanaethau yr ydym yn ei darparu i’n plant mwyaf bregus ac rydym yn gweithio tuag at weithredu model effeithlon ac effeithiol ar gyfer cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad yn y sefydliad a fydd yn sicrhau y bydd agwedd o welliant parhaus wedi ei gwreiddio a’i sefydlu’n gadarn yn ein holl arferion gweithio.

Yn drydedd, ond yr un mor bwysig, rhaid i ni gyflawni mewn perthynas â'r cyfleon adfywio a gawsom gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid sector preifat trwy weithredu dull strwythuredig o weithio mewn perthynas â'r Parth Menter Ynni / gorsaf niwclear newydd ac ailddatblygu safle Alwminiwm Môn mewn ffordd sydd o fudd i'n dinasyddion a'n cymunedau lleol. Mae'r rhain, ynghyd â'r fenter Ynys Ynni, yn sicrhau cyfleon parhaus i'r Ynys.

Adlewyrchir y gwaith o roi sylw i'r blaenoriaethau hyn yn ail ran y ddogfen hon lle sonnir am ein hamcanion a'n huchelgeisiau

- **EIN GWELEDIGAETH**

Mae ein gweledigaeth ar gyfer yr Awdurdod (gan gofio'r sefyllfa yr ydym ynddi ar gychwyn y strategaeth hon) yn uchelgeisiol –

**'Bod yn Gyngor Sir sy'n cael ei redeg yn dda ac sy'n darparu gwasanaethau cyson i'n dinasyddion tra'n rhoddi gwerth am arian'**

Fel y dywedwyd eisoes (tudalen 2), mae gennym werthoedd allweddol sy'n ganolog i'n bywyd gwaith ac a fydd o gymorth i ni wireddu'r weledigaeth hon tra hefyd yn cadarnhau'r amcan a'r canlyniadau y byddwn yn gweithio tuag atynt trwy gydol oes y cynllun hwn.

- **Datblygu ein Cynllun / Blaenoriaethau (gweler Tabl A isod)**

Mae'r Cyngor Sir yn sefydliad hynod gymhleth gyda throsiant blynyddol oddeutu £200 miliwn sy'n darparu gwasanaethau i ddinasyddion Ynys Môn. Rydym yn gweithio'n ddiflino i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol, a blaenoriaethau ar gyfer yr Ynys a'r Cyngor, y cyfan ohonynt wedi eu haleinio i sicrhau'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon i'n dinasyddion.

Dylid ystyried eu blaenoriaethau fel yr addewidion yr ydym yn eu gwneud i'n cymunedau ac sydd wedi eu siapio gan:-

**Barn y bobl leol:** Rydym yn symud tuag at fod yn Gyngor sy'n gwrando'n llawer gwell a byddwn yn gwella ein harferion ymgynghori ac ymgysylltu gyda'n dinasyddion a'n cymunedau ers 2011. Byddwn yn cymryd gofal arbennig i ddwyn cymaint o bobl ag sy'n bosibl i mewn gan gynnwys plant a phobl ifanc, dinasyddion hŷn a'r cynulleidfaoedd sy'n anodd i'w cyrraedd.

DRAFT

**Barn ein partneriaid:** Prin bod unrhyw wasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn cael ei gyflawni heb fewnbwn a chyfraniad ein partneriaid lleol. Wrth ddatblygu'r ddogfen hon, rydym wedi cymryd i ystyriaeth y rhaglen ynys eang sy'n cael ei datblygu gyda phartneriaid fel rhan o'r fersiwn ddiwygiedig o'n Strategaeth Cymunedol 'Ein Hynys, Ein Dyfodol' ac yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn wneud gwahaniaeth drwy arwain.


**Pa mor dda y mae'n Gwasanaethau yn perfformio ar hyn o bryd:** Rydym yn cychwyn monitro ein perfformiad yn ofalus iawn er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y nod ac yn gwneud gwelliannau parhaus. Onid ydym yn perfformio ar lefel sy'n ddigon da, yna cymerir camau i gywiro pethau. Mae ein blaenoriaethau ac yn benodol ein blaenoriaethau gwella yn adlewyrchu nifer o feysydd lle mae angen gwneud gwaith gwella pellach.

**Blaenoriaethau Gwleidyddol:** Mae Aelodau Etholedig a'r Aelod Cynulliad, fel cynrychiolwyr ein cymunedau lleol, hefyd wedi dwyn sylw at nifer o faterion drwy amryfal drywyddau megis Pwyllgorau Sgriwtini a Byrddau Partneriaeth ac mae'r rhain hefyd wedi cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen hon.

**Blaenoriaethau Cenedlaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ei blaenoriaethau ar gyfer ei blynyddoedd nesaf mewn grym yn y ddogfen Y Raglen Lywodraethu. Mae'r amcanion a nodir yno'n cael eu hadlewyrchu yn ein blaenoriaethau gyda phwyslais penodol ar gefnogi'r mwyaf bregus, addysg, twf a swyddi cynaliadwy ynghyd â'r amgylchedd a chynaliadwyedd.

DRAFT

**Tabl A.**


Rhaglen yr Ynys
Sylwadau'r Dinasyddion
Blaenoriaethau Cenedlaethol
Ein Hynys, Ein Dyfodol
Yn 2011/12, aethom ati'n eang i nodi blaenoriaethau ein dinasyddion
Rhaglen ar gyfer Llywodraeth
Cynllunio Adnoddau – Lle a Beth I flaenoriaethu?
Angen Brys
Blaenoriaethau o ran gwella – yn seiliedig ar y Gwasanaethau
CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL
Cynllun Gwas. gan gynnwys y Gyllideb
Cynllun Gwas. gan gynnwys y Gyllideb
Cynllun Gwas. gan gynnwys y Gyllideb
Cynllun Gwas. gan gynnwys y Gyllideb

DRAFT

- **Blaenoriaethau Cenedlaethol**

  Caiff y rhaglen Genedlaethol ei chydnabod yn y ddogfen strategol ‘Rhaglen ar gyfer Llywodraeth’. Daw oddeutu 80% o’n

  cyllideb flynyddol o Lywodraeth Cymru. Rydym wedi sefydlu Cytundeb Canlyniadau gyda Llywodraeth Cymru i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith yn lleol ac yn cyfrannu at y blaenoriaethau cenedlaethol hyn.

- **Blaenoriaethau Ynys Môn**

  Mae blaenoriaethau’r Ynys, wedi’i sefydlu drwy ddull rhyng-asiantaethol ac yn cael ai arwain gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol sydd wedi adnabod y canlynol sydd yn bwysig i gymunedau Mon –

  a. Pobl – cefnogi pobl a chymunedau i wella safon eu bywydau
  b. Lle – diogelu a gwella’r amgylchedd naturiol a’r amgylchedd adeiledig
  c. Swyddi – sicrhau’r cyfleoedd mwyaf o ran gwaith drwy addysg a sgiliau o safon uchel

- **Blaenoriaethau’r Cyngor**

  Mae canlyniadau allweddol y Cyngor (sydd wedi eu cysylltu a’u haleinio gyda blaenoriaethau’r Ynys gyfan) y byddwn yn gweithio tuag atynt wedi cael eu datblygu i roi sylw i flaenoriaethau’r dinasyddion tra hefyd yn cymryd i ystyriaeth y sylwadau cenedlaethol, lleol a gwleidyddol a gasglwyd drwy’r broses y sonnir amdani uchod. Maent yn darllen fel a ganlyn –

  1. Bod gan Ynys Môn economi wledig sy’n ffyniannus a llewyrchus
  2. Bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu llawn potensial
  3. Bod pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel
  4. Bod pobl yn Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.
  5. Bod pobl yn Ynys Môn yn falch o’u Cyngor.

- **Blaenoriaethau ar gyfer Gwella**

  Yn y tymor byrrach, rydym hefyd yn nodi blaenoriaethau gwella allweddol a fydd yn sicrhau bod dinasyddion Ynys Môn yn cael gwell gwasanaethau yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon posib (gweler Atodiad 1). Mae hon yn broses flynyddol parhaus sy'n fodd i'r Awdurdod gofleidio a gwreiddio'r mantra gwelliant parhaus ledled y sefydliad a byddent yn cael eu siapio gan feysydd gwelliant y Comisiynwyr.

- **THEMÂU SY'N TRAWSTORRI**

  **Datblygiad Cynaliadwy**

  Rydym yn cydnabod yr angen i wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau a'r sialens yw cynnal iechyd sylfaenol ein hamgylchedd tra'n sicrhau bod y modd yr ydym yn ei ddefnyddio yn cwrdd ag anghenion y gymuned a'r dinasyddion ac yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth Ewropeaidd. Rhaid i gynaliadwyedd fod wrth wraidd ein cyfeiriad strategol a gweithredol o ran datblygu polisi / darparu gwasanaethau, gwaith partneriaeth a'r modd y caiff y sefydliad ei redeg.

  **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

  Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn gydrannau allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer Ynys Môn. Yn ystod 2011/12, rydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau sector cyhoeddus eraill ledled Gogledd Cymru i nodi amcanion allweddol sy'n gyffredin i ni gyd. Os ydym ni fel sefydliad am symud gyda'n gilydd i sicrhau cydraddoldeb i bawb, mae hyrwyddo a dathlu amrywiaeth, lleihau anghydraddoldeb mewn iechyd, addysg, cyflogaeth a diogelwch personol ynghyd â defnydd o'r iaith Gymraeg a'n hymrwymiad i wella mynediad i wybodaeth gwasanaethau adeiladau a'r amgylchedd i'n dinasyddion oll yn elfennau hanfodol o waith.

  **Ein Pobl a'n Gwerthoedd**

  Mae'n gwerthoedd yn golygu'r hyn sydd o bwys gwirioneddol i ni. Dylent lywio ein hymddygiad a'n penderfyniadau ym mhob agwedd o'n busnes. Mae ein gwerthoedd yn greiddiol i'n diwylliant, maent yn treiddio trwy bopeth yr ydym yn ei wneud ac yn berthnasol i bawb; Cynghorwyr a'r staff. Mae darparu ein gwasanaethau yn dibynnu ar y staff sy'n gweithio i ni a'n ffocws ar gael ein harwain gan y cwsmer, bod yn uchelgeisiol ac yn eangfrydig, yn arloesol ac yn greadigol, yn agored ac yn onest, sy'n sylfaen i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol sy'n cael eu harwain gan y cwsmer.

DRAFT

**Rheoli Perfformiad**

Yn ystod 2011/12, fel Cyngor, fe fabwysiadwyd gennym Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad sy'n amlinellu pwysigrwydd perfformiad i ni fel Cyngor. Mae'n elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol effeithiol ac effeithlon sydd o gymorth i ni nodi a dysgu o feysydd o gryfder tra ar yr un pryd yn cydnabod y meysydd hynny y mae angen eu gwella a'u datblygu. Mae'n amlygu hefyd yr amcan cyffredinol o sicrhau gwerth am arian o wasanaethau a fydd yn sicrhau ar lefel weithredol ein bod yn cwrdd â'n potensial mewn modd effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hwn yn rhan o sut yr ydym yn bwriadu canolbwyntio a rheoli ein gwaith ar sail yr hyn sydd o bwys gwirioneddol i'n dinasyddion a sicrhau bod y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau yn gwneud gwahaniaeth i'r rheini yr ydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn sefydlu ac yn mabwysiadu cylch adolygu rheolaidd er mwyn monitro a dysgu o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim.

Mae'r fframwaith ei hun hefyd yn nodi sut y bydd gweithgareddau pob aelod o staff yn ffitio o fewn y rhaglen Gorfforaethol ehangach ac o'r herwydd yn ein cynorthwyo, bob un ohonom, i gydnabod sut mae ein swyddogaeth ni yn cael effaith ar y modd y cyflawnir y deilliannau a nodwyd.

**Rheolaeth Risg**

O'r flwyddyn hon ymlaen, bydd gan y Grwp Arweinyddiaeth Strategol ddefnydd o risgiau corfforaethol newydd a byddent yn eu monitro a'i rheoli yn rheolaidd. Bydd risgiau pellach sydd yn debygol o amharu ar y ffordd y darperir gwasanaethau yn cael eu rheoli o fewn y gwasanaethau / cyfadrannau perthnasol yn hytrach na cael eu rheoli'n gorfforaethol gan y Grwp Arweinyddiaeth Strategol. Er hyn, bydd y risgiau yma yna aros yn amlwg i'r Grwp a byddent yn cael ei uwchraddio i'w gweithredu os cyfyd yr angen.

Bydd gweddill y ddogfen hon yn awr yn diffinio Amcanion y Cyngor a phob canlyniad trwy amlinellu'r gwaith y byddwn ni fel Cyngor Sir yn ymgymryd ag ef. Byddwn hefyd yn dwyn sylw at y mesurau llwyddiant yr ydym yn eu mabwysiadu i ddangos yn fanwl ein bod yn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein dinasyddion a'n cymunedau yn eu cyfanrwydd

**Ein Hamcan – <u>HYRWYDDO A GWARCHOD BUDDIANNAU'R YNYS, EI DINASYDDION A'I CHYMUNEDAU</u>**

- **Ein <u>DEILLIANNAU</u> strategol -**

**1. Bod gan Ynys Môn economi wledig ffyniannus a llewyrchus**

Mae economi'r Ynys wedi wynebu sialensau mawr yn ddiweddar gyda'r amgylchedd busnes yn arbennig yn teimlo effaith y dirwasgiad economaidd byd eang. Nid ydym yn wahanol i unrhyw ardal arall o Gymru yn hynny o beth. Fodd bynnag, mae rhai cyfleoedd yn bodoli a fydd yn ein galluogi i wneud newid hirbarhaus i fywydau ein dinasyddion a'n cymunedau ac o ganlyniad, byddwn yn gweithredu ar elfennau o'r weledigaeth economaidd / twristiaeth tymor hir ar gyfer y Cyngor - gweledigaeth a sefydlwyd ac a fabwysiadwyd yn ystod 2011/12.

Mae ynni yn sector sy'n tyfu ar lefel fyd eang ac oherwydd ein lleoliad a'n hamgylchedd rydym mewn sefyllfa dda i ddod yn chwaraewr byd eang o ran datblygu ac ymchwilio i ynni, ac o ran arddangos, cynhyrchu a gwasanaethu ynni boed yn ynni niwclear, gwynt, biomas llanwol neu heulol. Bydd y rhaglen **Ynys Ynni** ynghyd â'r cyfle a gyflwynwyd i ni gan Barth Menter Llywodraeth Cymru yn cael eu datblygu i gwrdd â'r cyfleoedd hyn er mwyn sicrhau y daw'n yrrwr economaidd pwysig ar gyfer Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru.

Rydym yn cael ein hystyried fel cyrchfan boblogaidd i dwristiaid yn y DU gyda'r mwyafrif o'r ymwelwyr yn dod o Ogledd Orllewin Lloegr. I ychwanegu at y nifer o ymwelwyr a ddaw yma, mae angen clir i reoli'r cyrchfan drwy gydweithio ar lefel ynys gyfan. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy fabwysiadu a gweithredu ar **Gynllun Rheoli Cyrchfan** corfforaethol sy'n trawstorri, cynllun y bydd yr Awdurdod Lleol yn arwain arno ac yn ei weithredu mewn partneriaeth gyda chyrff sectorau preifat a chyhoeddus.

I wella economi'r Ynys ymhellach, mae angen amlwg i gynyddu lefelau gweithgaredd entrepreneuriaid a datblygu ein busnesau lleol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fentrau bychain a chanolig. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn cydweithredu gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru i ddatblygu model ar gyfer cydweithio rhanbarthol. Bydd y model hwn yn dwyn ynghyd bartneriaid i ailsiapio ac ailganolbwyntio'r gwasanaethau presennol i sicrhau bod gwariant yn cael ei dargedu'n briodol i adlewyrchu lefel yr angen lleol a'r elw economaidd.

**Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym?**

Mae'r economi yn fater o bwys i nifer o'n dinasyddion sy'n teimlo os gellwn wella'r sefyllfa gyfredol a gwneud y mwyaf o'r cyfleon a ddaw i ni, byddwn mewn sefyllfa llawer iachach a bydd yn haws rhoddi sylw i'r canlyniadau sy'n weddill. Dangosodd y broses ymgysylltu mai hon oedd y flaenoriaeth uchaf i'r rhan fwyaf o'r grwpiau oed. Wedi dweud hynny, roedd angen eglurhad

DRAFT

ar fater pwysig sef y balans rhwng yr ymgyrch i ddatblygu ynni ar y naill llaw a diogelu a gwella'r amgylchedd ar y llaw arall. Er mwyn ateb y cwestiwn hwnnw a chyflawni'r canlyniad hwn ar ran ein dinasyddion a'n cymunedau, rydym ni fel Cyngor wedi nodi'r cyfraniad canlynol y byddwn yn rhoi sylw iddo -

**Byddwn ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu a chynhyrchu ynni carbon isel ac ynni adnewyddadwy er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy….**

Gweithredu ein rhaglen Ynys Ynni gan ganolbwyntio'n arbennig ar achub ar y cyfleon o ran llewyrch economaidd a chynaliadwyedd a fydd yn cynnwys -

- Gweithio gyda phartneriaid (rhai preifat a chyhoeddus) i sicrhau cymeradwyaeth i'r orsaf Niwclear newydd ar safle Wylfa, gan gynnwys manteision statudol a manteision gwirfoddol i'r gymuned
- Arddangos manteision y rhaglen hon i bobl leol trwy ymgynghori ac ymgysylltu'n eang gyda chymunedau lleol.
- Parhau i drafod ac egluro o ran cynllunio a chyflawni cysylltiadau isadeiledd ynni newydd a gwell sydd eu hangen i wireddu uchelgeisiau cenedlaethol a lleol i allforio ynni.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau natur gystadleuol economi'r Ynys drwy sefydlu Parth Menter Ynni.

Byddwn yn galluogi darparu ynni gwynt ar y tir yn seiliedig ar y Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi eu cytuno a'u mabwysiadu a ddatblygwyd ac a baratowyd gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd.

**Byddwn yn cefnogi ac yn annog entrepreneuriaeth, twf busnesau a chyflogaeth**

Trwy barhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i wneud y mwyaf o'r buddiannau lleol a'r cyfleon cadwyn gyflenwi ar gyfer busnesau lleol a ddaw yn sgil datblygiadau strategol newydd.

**Byddwn yn un o'r cyrchfannau twristiaeth mwyaf poblogaidd yng Nghymru**

Trwy ddatblygu a gweithredu fframwaith cynllunio rheoli cyrchfan ar draws yr Awdurdod i sicrhau dull sefydliad cyfan o reoli cyrchfan.

DRAFT

Trwy weithredu'r strategaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol mewn partneriaeth gyda chyrff yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Trwy weithio tuag at sicrhau statws llwybr cenedlaethol llawn i'n Llwybr Arfordirol 125 milltir.

Sut byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud gwahaniaeth?

| Reference | Title | 11/12 Out-turn | 12/13 Target | 13/14 Target | 14/15 Target |
|---|---|---|---|---|---|
| | Number of Visitors per annum | 1.442 million | 1.485 million | 1.530 million | 1.576 million |
| | Revenue generated by Visitors | £220 million | £227 million | £234 million | £241 million |
| | Number of Jobs created / safeguarded | ? | ? | ? | ? |
| | Number of new / existing businesses assisted | ? / ? | ? / ? | ? / ? | ? / ? |
| | Increased number of communities / households having access to improved broadband | ? | ? | ? | ? |
| | | | | | |

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod ar y trywydd iawn?

**Bydd y Grwp Arweinyddiaeth Strategol yn gyfrifol am weithredu'r amcanion sydd yn gysylltiedig a'r deilliant yma gan wireddu'r dangosyddion priodol.**

DRAFT

2. **Bod pobl yn Ynys Môn yn cyrraedd eu potensial llawn**

*Er bod hwn yn ganlyniad sy'n seiliedig i raddau helaeth ar addysg ac yn un y gellid ei fesur trwy gyrhaeddiad a chyflawniad addysgol, mae'n werth nodi bod cyrraedd potensial llawn yn ymwneud â llawer mwy o bethau ac mae angen bod yn fwy eangfrydig a chanolbwyntio ar amrediad o faterion. Mae perfformiad addysgol ar Ynys Môn ers cryn amser wedi bod yn y chwarter uchaf o gymharu ag Awdurdodau cyffiniol ac mae'r ymgyrch i wella'r cyflawniad hwn yn un barhaus gyda chyllid addysgol yr Ysgolion yn cael ei amgáu er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ailfuddsoddi.*

*Fodd bynnag, mae'n adeg anodd, ac er bod setliad Llywodraeth Cymru wedi nodi cynnydd yn y gyllideb ar gyfer addysg, o gymryd i ystyriaeth y dylanwadau allanol, bydd y canlyniad net yn golygu gostyngiad yn y gwariant cysylltiedig ar addysg. Mae'r amser i newid felly wedi cyrraedd oherwydd ers 1973, mae niferoedd disgyblion mewn ysgolion cynradd wedi gostwng oddeutu 35% ac ers 1983, mae niferoedd disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng oddeutu 40% gyda thueddiad i rai plant oed ysgol uwchradd fynd i ysgolion yng Ngwynedd. Bydd sefydlu a gweithredu ar gynllun i resymoli a moderneiddio ysgolion yn creu system addysg deg sy'n cael ei chyllido'n dda ac sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Bydd hyn, ynghyd â'r buddsoddiad Ysgolion 21ain ganrif mewn adeiladau ysgol yn sicrhau bod ein datblygiadau'n cynorthwyo ein plant i'r dyfodol.*

*Yn unol ag amcan Llywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn edrych ar ddirprwyo cyllid refeniw i ysgolion i sicrhau bod modd cyflawni gwelliannau pellach yn seiliedig ar ddysgu. Bydd cydweithio pellach gyda'n partneriaid yn y maes addysg bellach ac addysg uwch yn parhau er mwyn darparu'r hyfforddiant angenrheidiol a'r cyfleoedd dysgu sy'n gysylltiedig â datblygiadau strategol newydd ynys eang.*

*Fodd bynnag, nid rhywbeth i'r cylch golchwyl addysg yn unig yw sicrhau bod ein pobl yn cyrraedd eu potensial llawn. Mae nifer o'n dinasyddion yn mwynhau bywyd o ansawdd da ac yn cymryd mantais o'r nifer o gyfleon sydd gan Ynys Môn i'w cynnig. Fodd bynnag, mae yna rai cymunedau sy'n dioddef nifer o anfanteision ac maent ymysg y mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r cymunedau hyn yn bennaf wedi eu lleoli yn yr ardaloedd 'trefol' ond mae yna bocedi sylweddol hefyd o amddifadedd yn y cefn gwlad. Dyna pam mae nifer o fentrau (e.e. Cymunedau'n Gyntaf / Teleofal) wedi eu sefydlu i gynorthwyo'r aelodau mwyaf difreintiedig o'n cymdeithas fel y gallant fwynhau byw'n annibynnol a goresgyn y rhwystrau sydd wedi eu nadu rhag cyrraedd eu potensial.*

**Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym?**

Yn ôl ein dinasyddion, y flaenoriaeth hon yw'r ail bwysicaf y tu ôl i'r economi. Nid yw'n syndod fodd bynnag y nodwyd y flaenoriaeth hon fel y flaenoriaeth bwysicaf i blant a phobl ifanc rhwng 0-19. Hoffai dinasyddion lleol weld y Cyngor yn gwneud ymdrechion i wella addysg a sgiliau fel bod hynny'n arwain at gyflogaeth a fydd o ganlyniad yn atal pobl ifanc rhag gadael yr Ynys. Dengys

DRAFT

canlyniadau'r proses ymgysylltu hefyd bod y cymunedau mwy gwledig er enghraifft yn aml yn fwy tebygol o nodi bod cael at wasanaethau yn broblemus.

**Bod modd cwrdd ag anghenion a dyheadau ein plant a'n pobl ifanc**

Trwy sefydlu dull amlasiantaethol o gefnogi plant a theuluoedd ifanc.

Trwy resymoli a moderneiddio'r ddarpariaeth ysgolion ar Ynys Môn fel bod adnoddau'n cael eu targedu tuag at addysgu, dysgu a chodi safonau addysgol a gostwng nifer y llefydd gweigion.

Trwy wella safon ein stoc o adeiladau ysgol, gan ostwng costau cynnal a chadw tymor hir a sicrhau bod y ddarpariaeth o lefydd ysgol yn cyd-fynd â'r galw o ran nifer y disgyblion gan ostwng nifer y lleoedd gweigion a rhyddhau adnoddau ar gyfer gwella ysgolion ac addysg.

Trwy gynorthwyo ein disgyblion i gyflawni i lefel uchel yn gyson a chwrdd â disgwyliadau rhieni a disgyblion.

Trwy ymchwilio i drefniadau amgen ar gyfer darparu cludiant ysgol.

Trwy adolygu a gwella ein gwasanaethau i blant tra'n darparu gwell cefnogaeth i blant sydd yng ngofal y Cyngor.

Trwy weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod y cyfan o'n pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Trwy gefnogi plant ac oedolion bregus i sicrhau eu bod yn derbyn rhaglenni dysgu priodol a'n bod yn cyflawni ein dyletswydd fel rhiant corfforaethol at blant y gofelir amdanynt yn arbennig o ran eu haddysg a'u hiechyd emosiynol.

Trwy ddirprwyo 80% o adnoddau refeniw yn uniongyrchol i ysgolion yr Ynys

Trwy ymateb yn adeiladol fel Cyngor i ganfyddiadau arolwg addysg Estyn 2012/13.

**Byddwn yn cael ein haddysgu'n well ac yn datblygu mwy o sgiliau i gwrdd ag anghenion y farchnad lafur**

Trwy gyflwyno ymgyrch wedi ei dargedu i greu brwdfrydedd a hyrwyddo ymgysylltiad ymysg ein plant a'n pobl ifanc mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (pynciau GTSM).

Trwy barhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector Addysg Uwch / Addysg Bellach i sicrhau fod pobl leol yn gallu ennill y sgiliau sy'n debygol o fod yn angenrheidiol yn ystod cyfnod adeiladu'r orsaf niwclear newydd fel bod modd iddynt gael gwaith o ran gweithredu'r cyfleuster niwclear.

Trwy weithredu strategaeth wrthdlodi'r Cyngor sy'n cwmpasu'r rhaglen Taith i Waith sy'n sicrhau cyfleoedd ar gyfer pobl anabl yn y gweithle.

**Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfleon cyfartal i bawb**

Trwy weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod sy'n tanlinellu'r angen i ymgymryd ag asesiadau o'r effaith ar gyllidebau, polisïau ac arferion gweithio.

Trwy weithio gyda sefydliadau partner megis y Comisiwn Cydraddoldeb Hawliau Dynol i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol ac yn adrodd ar gynnydd mewn modd amserol.

Trwy nodi camau a fydd yn sicrhau bod y gronfa o bobl sy'n gwneud penderfyniadau yn fwy cynrychioliadol a bod mwy o ferched yn arwain yn y Cabinet (gweler y strategaeth adnewyddiad democrataidd).

Trwy weithredu'n effeithiol raglen i liniaru a rhoi sylw i fesurau cyflog cyfartal yn yr Awdurdod

**Byddwn yn cymryd balchder yn ein hiaith a'n diwylliant ac yn hyrwyddo ein treftadaeth ddiwylliannol**

Trwy sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu hyrwyddo drwy weithrediad ein polisi dwyieithrwydd.

Trwy hyrwyddo'r atyniadau hynny y mae'r Cyngor yn berchen arnynt fel rhan o'r cynllun rheoli cyrchfan.

| Reference | Title | 11/12 Out-turn | 12/13 Target | 13/14 Target | 14/15 Target |
|---|---|---|---|---|---|
| | EDU/002i: The percentage of all pupils (including those in LA care) in any local authority maintained school, aged 15 as at the preceding 31 August who leave education, training or work based learning | | | | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | without an approved external qualification | | | | |
| | EDU/011: The average point score for pupils aged 15 at the preceding 31 August, in schools maintained by the local authority | | | | |
| | % of pupils that leave full time education that are NEET | | | | |
| | No. of visitors to Council owned Attractions (incl. of Oriel Ynys Môn) | | | | |
| | TBA | | | | |
| | TBA | | | | |
| | TBA | | | | |
| | TBA | | | | |

Pwy sy’n gyfrifol am sicrhau ein bod ar y trywydd iawn?

**Yr Aelod a’r Swyddog sy’n Arwain – yr Aelod ar y Pwyllgor Gwaith Cysgodol / Cyfarwyddwr**

DRAFT

## 3. Bod pobl yn Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel

*Mae iechyd yn golygu llawer iawn mwy na pheidio bod yn sâl. Mae'n adnodd pwysig ar gyfer bywyd pob dydd sy'n caniatáu i bobl gyflawni swyddogaethau sylfaenol bob dydd, datblygu i'w llawn potensial a mwynhau safon bywyd da sy'n rhoi boddhad.*

*O ganlyniad, mae iechyd o boblogaeth yn hanfodol i sicrhau ansawdd bywyd gwell ar Ynys Môn. O'r herwydd, un o gonglfeini ein rhaglen yw darparu cymunedau gwell sy'n iachach, yn ddiogelach ac yn decach a hynny trwy amrediad o wasanaethau ataliol, gwellhaol a chefnogol mewn partneriaeth gyda chydrandeiliaid eraill sydd o'r run farn. Bydd yn fodd o sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn gallu mwynhau bywydau iach ac egnïol a'u bod yn gallu cael at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol addas yn brydlon pan gyfyd yr angen.*

*Mae'r tri maes blaenoriaeth, sef ffyrdd iach o fyw / cyflyrau cronig a hyrwyddo annibyniaeth yn themâu sy'n croestorri ac sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Maent yn adlewyrchu'r polisïau cenedlaethol sy'n esblygu a'r cyd-destun blaenoriaeth a amlygir yn y rhaglen lywodraethu ac maent yn mynd law yn llaw ac yn berthnasol i gwrdd ag anghenion grwpiau bregus penodol yn y boblogaeth.*

*Mae cael at wasanaethau iechyd yn hollbwysig os ydym am gwrdd ag anghenion ein pobl mwyaf bregus, p'un a ydynt yn bobl gyda materion iechyd difrifol, plant mewn gofal neu'r henoed. Trwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn sicrhau bod ein dinasyddion mwyaf bregus yn cael eu gwarchod a'u bod yn derbyn gwasanaethau cydlynol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol a hwn fydd un o'n blaenoriaethau statudol pwysicaf.*

*Byddwn hefyd yn defnyddio amrediad o ffynonellau data a barn a dadansoddiadau arbenigwyr i gael dealltwriaeth glir o anghenion diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, nid ymarfer data a gwybodaeth syml mohono. Rhaid dehongli data a barn arbenigwyr gyda ffocws clir ar sut y gallant gynorthwyo i wella ein hamgylchedd a gostwng ymddygiad ymosodol sydd o bryder i'n cymunedau lleol.*

**Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym?**

Unwaith eto, roedd hon yn flaenoriaeth bwysig iawn ond roedd y dinasyddion y cydnabod bod peth ansicrwydd ynghylch sut y gellid cyflawni hyn. Yn y broses ymgysylltu, nodwyd mai'r themâu pwysicaf dan y canlyniad hwn oedd thema 'tai' a'i bod hi'n bwysig i'r Cyngor roi sylw i anghenion tai fforddiadwy pobl ifanc. Cydnabyddir yr agenda ffordd iach o fyw ond ymddengys nad yw'n cael lle amlwg iawn, er gwaethaf tynnu sylw at effeithiau camddefnyddio sylweddau ac alcohol.

**Byddwn yn gwarchod ac yn gwella cyfleon bywyd plant ac oedolion bregus yn ein cymdeithas**

Trwy weithredu'r 'strategaeth Pobl Hŷn' i alluogi a darparu cyfleon ar gyfer byw'n annibynnol.

Trwy ailfodelu'r gwasanaethau i oedolion i adlewyrchu anghenion cyfredol mewn partneriaeth gyda phartneriaid strategol eraill gan gynnwys y trydydd sector a defnyddwyr.

Trwy weithredu dull amlasiantaethol o ddarparu gwasanaethau i blant ac oedolion gan sicrhau'r cyfleon mwyaf posib i wella diogelwch i'n dinasyddion mwyaf bregus.

Trwy weithio mewn partneriaeth i sicrhau bod adnoddau'n cael eu darparu mewn modd sydd wedi ei dargedu fel eu bod yn cael effaith ar y fframwaith polisi cenedlaethol.

**Byddwn yn byw ein bywydau yn rhydd o drosedd, anhrefn a pherygl**

Trwy weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael yn effeithiol a throsedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n cael effaith andwyol ar ein hamgylchedd trwy weithredu ein Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

**Byddwn yn sicrhau y cyfarfyddir ag anghenion tai'r Ynys**

Trwy gael caniatâd ar gyfer datblygiadau cysylltiedig ar safleoedd allweddol fel y gellir cychwyn ar y broses adeiladu sydd wedi ei haleinio ar safle yr orsaf niwclear arfaethedig newydd.

Trwy weithredu'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio yn y datganiad sefyllfa a fabwysiadwyd gan y Cyngor ynghylch anghenion lletya gweithwyr adeiladu a fydd yn gweithio ar yr orsaf niwclear newydd arfaethedig trwy fabwysiadu dull cymysg lle –

- Mae 1/3 o'r gweithwyr yn cael eu lletya mewn llety pwrpasol (gyda'r nifer leiaf bosib ar y safle i gwrdd ag anghenion gweithredu ond y mwyafrif oddi ar y safle)
- Mae 1/3 yn cael eu lletya mewn llety rhent preifat (cymysgedd o lety newydd a chyfredol)
- Mae 1/3 yn cael eu lletya mewn llety twristiaeth (cymysgedd o lety newydd a chyfredol)

Trwy gwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru ar gyfer holl eiddo'r Cyngor erbyn Rhagfyr 2012

Trwy welliant trosiant anheddau sector cyhoeddus.

Trwy weithredu cyfleon i ostwng cyfrifoldebau’r awdurdod am gynnal a sicrhau derbyniadau cyfalaf ychwanegol yn y stad mân-ddaliadau.

**Byddwn yn byw bywydau iachach a hwy**

Trwy annog plant a phobl ifanc yn Ynys Môn i fyw bywydau egnïol a thyfu i fod yn oedolion egnïol

Trwy annog oedolion yn Ynys Môn i fod yn fwy egnïol, yn amlach, trwy gydol eu hoes

Trwy sicrhau bod gan bobl gyfle i fod mor iach ac annibynnol â phosib trwy gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar reoli cyflyrau cronig mewn modd effeithiol.

Trwy weithio gyda’n sefydliadau partner i foderneiddio ac ailfodelu’r gwasanaeth gofal dydd ar gyfer pobl hŷn ar Ynys Môn.

| Reference | Title | 11/12 Out-turn | 12/13 Target | 13/14 Target | 14/15 Target |
|---|---|---|---|---|---|
| | PLA/006: The number of additional affordable housing units provided during the year as a percentage of all additional housing units provided during the year | | | | |
| | PLA/002: The percentage of applications for development determined during the year that were approved | | | | |
| | LCS/002: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity, per 1,000 population | | | | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | PSR/004: The percentage of private sector dwellings that had been vacant for more than 6 months at 1 April that were returned to occupation during the year through direct action by the local authority | | | | |
| | PSR/002: The average number of calendar days taken to deliver a Disabled Facilities Grant | | | | |
| | HHA/013: The percentage of all potentially homeless households for whom homelessness was prevented for at least 6 months | | | | |
| | PPN/001ii: The percentage of high risk businesses that were liable to a programmed inspection that were inspected, for Food Hygiene | | | | |
| | PPN/001i: The percentage of high risk businesses that were liable to a programmed inspection that were inspected, for Trading Standards | | | | |
| | PLA/006: The number of additional affordable housing units provided during the year as a percentage of all additional housing units provided during the year | | | | |
| | SCA/003b: The percentage of clients, in the following age groups, who are | | | | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | supported in the community during the year aged 65+ | | | | |
| | SCA/003a: The percentage of clients, in the following age groups, who are supported in the community during the year aged 18-64 | | | | |
| | SCA/002a: The rate of older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | | | | |
| | SCC/011a: The percentage of initial assessments that were completed during the year where there is evidence that the child has been seen by the Social Worker | | | | |
| | SCC/034: The percentage of child protection reviews carried out within statutory timescales during the year | | | | |
| | SCC/043a: The percentage of required core assessments completed within 35 working days | | | | |

Pwy sy’n gyfrifol am sicrhau ein bod ar y trywydd iawn ?

**Yr Aelod a’r Swyddog sy’n Arwain – yr Aelod ar y Pwyllgor Gwaith Cysgodol / Cyfarwyddwr**

DRAFT

4. **Bod pobl Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**

*Bydd cyrchfannau deniadol a llwyddiannus bob amser yn sicrhau bod cynaliadwyedd wrth wraidd pob agwedd o'u datblygiad. Ein nod a'n her fel a nodwyd dan Ganlyniad 1 yw cynyddu llewyrch economaidd tra hefyd yn cwrdd â'r cyfrifoldebau amgylcheddol. Wrth gwrs, bydd hyn yn cynnwys datblygu gofynion newydd o ran isadeiledd i gyd-fynd ????????*

*Bydd y Cyngor, trwy ei gynllun rheoli cyrchfan a'i gynllun gweithredu ar gyfer yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn sicrhau llwyddiant y dynodiadau yn y dyfodol. Byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid a fydd â rheolaeth neu ddylanwad uniongyrchol dros reoli tir i weithredu polisïau sy'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o ardaloedd o'r fath. Byddwn yn arwain Cyd-bwyllgor Ymgynghorol sydd wedi ei strwythuro, ei weinyddu a'i gefnogi yn gywir rŵan ac yn y dyfodol i sicrhau bod modd cyrraedd y nod o reoli tir mewn modd integredig.*

**Beth mae ein dinasyddion yn ei ddweud wrthym?**

O'r broses ymgysylltu yr ymgymerwyd â hi, ymddengys mai hyn sy'n cael y flaenoriaeth isaf gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ond mae'r Cyngor yn ymwybodol bod ei reoli yn arbennig o berthnasol o ran datblygu'r rhaglen dwristiaeth ac mae'r thema fwyaf amlwg o'r ymatebion hyd yma yn ymwneud â goblygiadau'r rhaglen rheoli gwastraff ac ailgylchu. Mae polisi cynllunio hefyd yn derbyn rhywfaint o sylw o ran yr angen i reoli safon adeiladau yn y dyfodol a'r balans anodd rhwng datblygu'r economi a gwarchod yr amgylchedd.

**Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r capasiti angenrheidiol o ran isadeiledd i gwrdd ag anghenion ein dinasyddion, busnesau a chymunedau**

Trwy sefydlu'r Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau cymunedau cryf, sy'n datblygu ac sy'n gynaliadwy.

Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru i gynyddu capasiti'r A55 ar draws Afon Menai, gan gynnwys capasiti ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Trwy weithio gyda phartneriaid i wella isadeiledd y ffyrdd o fewn ac o gwmpas datblygiadau strategol newydd posibl ynghyd â defnyddio benthyciadau pwyllog Llywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen waith i wella isadeiledd y ffyrdd mewn lleoliadau allweddol.

DRAFT

Trwy weithio gyda phartneriaid cyhoeddus a phreifat i ymchwilio i'r opsiynau sy'n ymwneud â datblygu model gweithredol newydd ynghylch darparu canolfannau hamdden ar yr Ynys.

**Byddwn yn hyrwyddo, gwarchod ac yn gwneud defnydd cynaliadwy o'n treftadaeth adeiledig unigryw a'n hamgylchedd naturiol**

Trwy adolygu, diwygio a newid y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol i resymoli portffolio asedau cyfredol y Cyngor fel bod llai o gyfrifoldebau ac er mwyn cynnal gwasanaethau.

Trwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol i weithredu'r Cynllun Gweithredu AHNE.

Trwy weithio tuag at sicrhau statws llwybr cenedlaethol llawn i'n llwybr arfordirol 125 milltir.

**Byddwn yn sicrhau cymunedau glân sy'n amgylcheddol gynaliadwy**

Trwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Gwastraff tymor hir i sicrhau bod y system casglu gwastraff mor effeithlon ag sy'n bosibl.

| Reference | Title | 11/12 Out-turn | 12/13 Target | 13/14 Target | 14/15 Target |
|---|---|---|---|---|---|
| | THS/011a: Percentage of principal (A) roads that are in overall poor condition | | | | |
| | STS/005b: The percentage of highways and relevant land inspected of a high or acceptable standard of cleanliness | | | | |
| | STS/005a: The Cleanliness Index | | | | |
| | WMT/004: The percentage of municipal wastes sent to landfill | | | | |
| | WMT/009: The percentage of municipal waste collected by local authorities and prepared for reuse and/or recycled, | | | | |

DRAFT

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | including source segregated biowastes that are composted or treated biologically in another way | | | | |
| | | | | | |

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod ar y trywydd iawn ?

**Yr Aelod a'r Swyddog sy'n Arwain – yr Aelod ar y Pwyllgor Gwaith Cysgodol / Cyfarwyddwr**

DRAFT

**5. Bydd pobl yn Ynys Môn yn falch o'u Cyngor**

*Dylai'r cwsmer fod wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod ein gwasanaethau yn ychwanegu gwerth a hefyd yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfeirio at y pethau sydd o'r pwys mwyaf i'n dinasyddion. Ni fedr y Cyngor fforddio eistedd yn ôl a bydd ymgyrch diflino yn ystod oes y ddogfen hon i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn wyneb y rhaglen gydweithio a'r ymgyrch genedlaethol i sefydlu partneriaethau, ni fydd y Cyngor yn darparu'r gwasanaethau'n uniongyrchol mewn rhai achosion ond bydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol.*

*Mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau a'n staff rheng flaen yn cael eu cefnogi gan y Cyngor i gyflawni eu huchelgeisiau. Mae angen cyfuno hyn gyda monitro'n gadarn ein gwariant, ein perfformiad a'r atborth a gawn gan ein cwsmeriaid er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn ar yr adeg iawn yn y ffordd iawn. Byddwn hefyd yn sicrhau bod llywodraethu cryf yn y Cyngor trwy ein strwythur pwyllgorau a'n bod yn ymrwymo i fod yn dryloyw lle mae ein penderfyniadau yn darparu cyfleoedd pellach i'n dinasyddion ein dal yn atebol.*

*Byddwn yn sicrhau ein bod yn delio gydag unrhyw ddiffygion a nodwyd gan reoleiddwyr allanol ac yn eu cywiro a byddwn yn ystyried hyn fel pecyn cymorth hanfodol ar gyfer y ein siwrnai o welliant parhaus trwy ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n dinasyddion.*

*O ganlyniad i'r uchod, rydym yn anelu at weld y Cyngor yn cynnig cyfleon gyrfa i bobl a fyddai'n fodlon ymuno â ni ar y daith.*

**Beth mae'n ddinasyddion yn ei ddweud wrthym?**

Dywed ein dinasyddion wrthym bod angen i ni roddi iddynt amser digonol i ystyried ac ymgysylltu ar rai materion. Maent yn nodi hefyd bod angen i ni wrando ar lefel leol er mwyn deall barn a sylwadau pobl ar bethau sydd o bwys iddynt. Wedi dweud hynny, ymddengys bod gan y mwyafrif o'r rheini sy'n nodi materion yn credu bod angen i bethau wella yn y Cyngor oherwydd y sylw negyddol a gafwyd yn y wasg dros nifer o flynyddoedd.

**Byddwn yn gwrando ar ein dinasyddion ac yn cyflawni ein haddewidion**

Trwy weithredu ein strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol gan gynnwys cynnal arolygon rheolaidd ymysg ein Dinasyddion er mwyn nodi blaenoriaethau ein trigolion a'u barn ynglŷn â'r dyfodol.

DRAFT

Trwy ailddylunio ein prosesau mewnol a'n datrysiadau technolegol er mwyn gwneud ein proses gwneud penderfyniadau yn dryloyw mewn modd sydd wedi ei fireinio ac sy'n canolbwyntio ar y cwsmer.

Sefydlu trefniadau ymgysylltu ardal eang er mwyn darparu sianelau digonol fel y gall cyfranogiad cymunedol chwarae rôl ddatblygol yn ein proses gwneud penderfyniadau.

**Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth i wella'r canlyniadau ar gyfer ein dinasyddion**

Trwy ymgorffori dull newydd o ran partneriaethau ynys eang / partneriaethau sy'n benodol i sectorau.

Trwy gyflawni Cytundebau Canlyniadau'r Cyngor a'i olynydd sef cytundeb cydweithio rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru.

Trwy gyflawni cyfraniad y Cyngor i'r Strategaeth Gymunedol - Ein Hynys, Ein Dyfodol mewn partneriaeth gyda sefydliadau'r sector preifat, sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Trwy ymchwilio i ddull newydd o bwrcasu gwasanaethau a fydd yn rhyddhau arbedion 'gwirioneddol' i'r dyfodol.

**Byddwn yn gwerthfawrogi ein staff ac yn trin ein dinasyddion a'n hamgylchedd gyda pharch**

Trwy weithredu ein strategaeth Cyfathrebu Mewnol i hysbysu staff o ddatblygiadau ar bob lefel o'r sefydliad.

Trwy gynnal arolygon staff yn rheolaidd i sicrhau bod yr awdurdod yn cael gwybodaeth i ddatblygu a gwella ei achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl 'Statws Safonol – Corfforaethol'.

Trwy weithredu ein 'Strategaeth Pobl' sy'n gosod y cynllun ar gyfer ein blaenoriaethau o ran rheoli pobl i'r y dyfodol. Ym marn y Cyngor, mae hyn yn allweddol i'w lwyddiant yn y dyfodol ac mae'n cydnabod ei bwysigrwydd o ran lliniaru'r risg a ddaw yn sgil dylanwadau allanol y sector preifat trwy sicrhau bod holl adeiladau'r Cyngor yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol o ran pobl gydag anableddau.

**Byddwn yn uchelgeisiol ac yn eangfrydig**

Trwy edrych i lefydd eraill am atebion / dod yn bencampwyr rhwydweithiau / datblygu ar lwyddiant y rhaglen Ynys Ynni i sicrhau cyfleoedd datblygu pellach y gall yr Ynys arwain arnynt ac elwa ohonynt.

Trwy gynnal a gweithredu menter adnewyddiad democrataidd i gynyddu'r lefel flynyddol o gyfranogiad cymunedol.

DRAFT

| Reference | Title | 11/12 Out-turn | 12/13 Target | 13/14 Target | 14/15 Target |
|---|---|---|---|---|---|
| | % of people who think the quality of the Council services are good | | | | |
| | % of people who are satisfied with the level of services the Council provides | | | | |
| | % of people who think the Council offers residents good value for money | | | | |
| | % of people who are satisfied with the way in which the Council is running the Island | | | | |
| | % of staff who feel valued by the Council | 39% (9/10 fig) | 50% | 55% | 65% |
| | % of staff having a Performance Development Review | TBC% | 100% | 100% | 100% |
| | Reduction in Sickness absence (days per FTE) | Baseline identified | 11 | 10 | 9 |

Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau ein bod ar y trywydd iawn ?

**Yr Aelod a'r Swyddog sy'n Arwain – yr Aelod ar y Pwyllgor Gwaith Cysgodol / Cyfarwyddwr**

DRAFT